WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Dinas Caerdydd


Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 367A2016




Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins a Chris Pugh o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Yr adroddiad hwn | 4 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 | 5 |
| Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2016-17 ar yr amod ei fod yn rhoi trefniadau i gefnogi gwell canlyniadau ar waith yn llawn ac yn parhau i gyflawni gwelliannau ar y raddfa bresennol | 6 |
| Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella | 7 |

## Adroddiad manwl

| | |
|---|---|
| Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol | 13 |
| Perfformiad | 14 |
| Y defnydd o adnoddau | 19 |
| Llywodraethu | 20 |

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 22 |
| Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2016-17 Cyngor Dinas Caerdydd | 23 |
| Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2014-15 Cyngor Dinas Caerdydd | 25 |
| Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol 2014-15 | 27 |
| Atodiad 5 – Argymhellion adroddiad cenedlaethol 2015-16 | 30 |

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Dinas Caerdydd (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Awst 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); ac Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn). Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y ‘rheoleiddwyr perthnasol’, isod.

| Project name | Brief description |
|---|---|
| Swyddfa Archwilio Cymru: Asesiad Cydnerthedd Ariannol | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol, a gwaith dilynol ar faterion a amlygwyd mewn gwaith ar y sefyllfa ariannol yn 2014-15. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad Blynyddol o'r 'Cynllun Gwella’ | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella yn unol â gofynion y Mesur. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad Blynyddol o'r ‘Asesiad o Berfformiad’ | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor yn unol â gofynion y Mesur. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol | Gwaith dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014 er mwyn asesu cynnydd y Cyngor yn erbyn y cynnig ar gyfer gwelliant a wnaed. |
| Estyn: Gwerthusiad o berfformiad ysgolion | Adolygiad o berfformiad amrywiaeth o ysgolion o fewn y Cyngor. |
| Estyn: Ymweliad monitro olaf | Asesiad o gynnydd y Cyngor yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr ymweliad monitro ym mis Chwefror 2014. |
| AGGCC: Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad | Gwerthusiad o berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. |
| AGGCC: Arolygiad o Wasanaethau Plant | Arolygiad o Wasanaethau Plant gan edrych ar y trefniadau mynediad ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd a oedd naill ai wedi'u cyfeirio ar gyfer derbyn gofal a chymorth neu pan dderbyniwyd gwybodaeth am les plant. |
| Arolygiaeth Prawf EM | Cydarolygiad llawn o waith gyda Throseddwyr Ifanc yng Nghaerdydd. |
| Adroddiadau cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru | • Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru<br>• Partneriaethau diogelwch cymunedol<br>• Cynhyrchu incwm a chodi tâl<br>• Trefniadau’r Cyngor ar gyfer ariannu gwasanaethau trydydd sector |

## Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2016-17 ar yr amod ei fod yn rhoi trefniadau i gefnogi gwell canlyniadau ar waith yn llawn ac yn parhau i gyflawni gwelliannau ar y raddfa bresennol

6 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Daeth ein hadroddiad ar y Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016 i'r casgliad bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog, ond ei fod bellach ar bwynt allweddol yn y broses o'u hymgorffori os yw am gyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell.

b Ni lwyddodd y Cyngor i fodloni gofynion y Mesur o ran ei asesiad o'i berfformiad yn 2014-15. Ni wnaeth ei Adroddiad Gwella a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015 asesu sut mae cynnydd wedi cyfrannu at lwyddiant cyflawni amcanion gwella 2014-15. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

c Nododd ein Hasesiad o Gydnerthedd Ariannol fod y Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynllunio ariannol a bod ganddo drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol cadarn ar waith, ond bod angen iddo bellach ddatblygu cynlluniau cadarn er mwyn helpu i gyflawni ei gynigion arbed yn amserol.

ch Yn ei Hadolygiad a'i Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, nododd AGGCC fod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran gwasanaethau cymdeithasol gan fod angen gwella rhai meysydd perfformiad allweddol o hyd, er ei fod yn symud i'r cyfeiriad cywir.

d Ym mis Mawrth 2016, nododd Estyn fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion a oedd yn deillio o'i hymweliad monitro yn 2014, ac nad oedd angen iddo wella'n sylweddol mwyach. Cafodd y Cyngor ei hepgor o weithgarwch dilynol Estyn.

dd Ym mis Mawrth 2016, nododd arolygiad AGGCC o Wasanaethau Plant fod y Cyngor yn ymroddedig i flaenoriaethu gwasanaethau sy'n cynorthwyo'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, ond bod yn rhaid iddo wneud hyn yn erbyn cefndir o gyllideb ostyngol a galw cynyddol.

e Llwyddodd y Cyngor i fodloni gofynion y Mesur wrth gyhoeddi ei Gynllun Gwella yn 2016-17. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

7 Mae'r Cyngor yn awr ar bwynt allweddol yn y broses o sicrhau bod trefniadau gwell wedi'u hymgorffori ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn adeiladol ar draws y sefydliad er mwyn cyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell erbyn diwedd y flwyddyn.

8 Mewn ymateb i'n hadroddiad ar y Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol, aeth y Cyngor ati i baratoi cynllun gweithredu er mwyn ymdrin â'n hargymhelliad, a chynigion cysylltiedig ar gyfer gwella. Yn ystod 2016-17, byddwn yn asesu trefniadau'r Cyngor ar gyfer dangos ei gynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad a'r cynigion ar gyfer gwelliant a gynhwysir yn ein Hadroddiad ynghylch Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Nodir yr argymhellion ffurfiol a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn isod. Rhaid i awdurdodau baratoi ymateb o fewn 30 diwrnod gwaith i'w cael. Ceir materion â llai o flaenoriaeth, sef cynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ond gellir cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro argymhellion a chynigion ar gyfer gwella'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

**Argymhelliad - Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016)**

A1 Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella fel y'u nodwyd yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau canlyniadau gwell yn ystod y 12 mis nesaf.

**Ymatebodd y Cyngor gyda chynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn a'r cynigion ar gyfer gwella a gafwyd yn yr adroddiad. Byddwn yn asesu trefniadau'r Cyngor ar gyfer dangos ei gynnydd yn ystod ein gwaith asesu gwelliant yn 2016-17.**

**Argymhelliad - Tystysgrif Cydymffurfio ar gyfer yr Archwiliad o asesiad Cyngor Dinas Caerdydd o berfformiad 2014-15 (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015)**

A2 Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ei adroddiad gwella blynyddol yn cynnwys asesiad cryno o farn y Cyngor am ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn.

**Ymatebodd y Cyngor drwy gadarnhau y byddai adroddiadau gwella yn y dyfodol yn cynnwys asesiad cryno o farn y Cyngor am ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella. Mewn ymateb, gwnaeth y Cyngor hefyd gyhoeddi hunanasesiad ar wahân o ran ei berfformiad yn cyflawni amcanion gwella 2014-15.**

**Byddwn yn archwilio Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16 y Cyngor ym mis Tachwedd 2016.**

11 Nodir Meysydd i'w Gwella a wnaed gan Estyn ac argymhellion a wnaed gan AGGCC ac Arolygiaeth Prawf EM yn ystod y flwyddyn isod.

**Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014-15 AGGCC**

Meysydd i'w gwella 1

- Amseroldeb cwblhau adolygiadau o anghenion gofal pobl hŷn.
- Gweithredu elfen ansawdd wrth gomisiynu gofal preswyl.
- Cynyddu capasiti cyflenwi gofal cartref.
- Gwella perfformiad o ran lleihau oediadau wrth drosglwyddo gofal.
- Parhau i gynyddu nifer y taliadau uniongyrchol i bobl Caerdydd.

Meysydd i'w gwella 2

- Parhau i gynyddu nifer y bobl sy'n dewis derbyn taliadau uniongyrchol.
- Parhau i gynyddu nifer y gweithwyr cymdeithasol sy'n cael eu penodi i swyddi parhaol.
- Gwella perfformiad wrth gwblhau cynlluniau addysg personol.
- Recriwtio cynghorwyr personol.
- Cwblhau asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd.

Meysydd i'w gwella 3

- Cynnal strwythur rheoli cynaliadwy.
- Penodi cyfarwyddwyr cynorthwyol.
- Parhau i gwrdd â heriau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

**Arolygiad o Wasanaethau Plant AGGCC**

**Rhoi Cyfeiriad**

A1 Dylid parhau i ddarparu cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref i wasanaethau plant er mwyn cyflawni gweledigaeth y cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd, wrth barhau i reoli'r galw am wasanaethau statudol, sy'n gyson uchel.

A2 Rhaid i'r cyngor gryfhau'r cynlluniau gweithredol i gefnogi'r gwaith cydlynu ar gyfer ailfodelu gwasanaethau plant yn effeithiol a'i ryng-gysylltiad â'r Strategaeth Cymorth Cynnar.

A3 Dylai'r cyngor sicrhau y bydd y trefniadau llety a 'gweithio ystwyth' yr oedd yn bwriadu eu rhoi ar waith yn cefnogi gwaith cymdeithasol yn effeithiol.

**Cyflenwi Gwasanaethau Cymdeithasol**

A4 Dylid gweithredu strategaeth y gweithlu i'r eithaf er mwyn cadw staff cymaint â phosib a chymryd camau i hybu recriwtio staff yn fwy amserol.

A5 Dylai'r cyngor ystyried sut y gall gynyddu'r cyfleoedd i staff gymryd rhan yn y broses o ddatblygu a thrawsnewid gwasanaethau, ac i leisiau'r plant a'u teuluoedd gael eu cynnwys wrth gynllunio'r gwasanaeth.

A6 Mae'n rhaid i'r staff allu cwblhau'r hyfforddiant a nodwyd i gefnogi eu datblygiad proffesiynol.

R7 Dylid gweithredu'r fframwaith sicrhau ansawdd yn systematig ym mhob gwasanaeth plant. Dylai hwn gynnwys darparu goruchwyliaeth gan reolwyr o ran ansawdd y sesiynau goruchwylio a pha mor aml y cânt eu cynnal.

**Llunio Gwasanaethau**

A8 Rhaid i'r cyngor adolygu ei drefniadau i sicrhau bod gwasanaethau yn gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n dioddef trais yn y cartref.

A9 Dylid cynnwys adolygiad amserol o effeithiolrwydd ac effaith ar ganlyniadau i bobl y gwaith o ailfodelu gwasanaethau plant, a'i ryng-gysylltiad â'r Strategaeth Cymorth Cynnar, yn y trefniadau cynllunio.

**Trefniadau Mynediad**

A10 Dylid llunio ystod o wybodaeth sy'n hawdd ei darllen a sicrhau ei bod yn hygyrch i deuluoedd, plant a phobl ifanc, gan gyfeirio nid yn unig at wasanaethau ataliol, ond hefyd at sut mae gwasanaethau plant yn cyflawni eu gwaith.

A11 Mae'n rhaid i'r cyngor ddatblygu trefniadau mwy effeithiol er mwyn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu os yw cysylltiadau ac atgyfeiriadau ynghylch eu lles yn cael eu hailadrodd.

A12 Mae'n rhaid i'r cyngor weithio gyda phartneriaid i gytuno ar yr un ddealltwriaeth o'r trothwy ar gyfer gwasanaethau statudol.

A13 Dylid ystyried yn ofalus sut y bydd effaith y rhyng-gysylltiad presennolrhwng y tîm pwynt cyswllt plant a'r tîm derbyn ac asesu'r plant yn cael ei gynnal pan fydd y gwaith o ailfodelu'r gwasanaeth yn cael ei roi ar waith.

A14 Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer staff gwasanaethau plant yn cael y wybodaeth a gedwir ynghylch rhieni sy'n defnyddio gwasanaethau i oedolion.

A15 Dylid cytuno ar y trefniadau 'y tu allan i oriau' ar gyfer cwblhau 'archwiliadau lles' ar blant a phobl ifanc gydag asiantaethau partner.

**Asesu a Rheoli Gofal**

A16 Dylid gwella ansawdd y cynlluniau i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau ac adlewyrchu'r anghenion a nodir yn yr asesiadau.

A17 Dylid cwblhau'r gwaith o gytuno ar fodel asesu risg, gyda phwyslais cryf ar gysondeb o ran rheoli risg.

A18 Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gofnodi safbwyntiau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

A19 Dylai'r cyngor adolygu'r defnydd o gytundebau ysgrifenedig gyda theuluoedd, a dim ond o fewn y trefniadau diogelu neu'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus y dylid eu defnyddio. Dylid llunio canllawiau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr ar gyfer sut i'w defnyddio.

**Cydarolygiad Llawn o Waith gyda Throseddwyr Ifanc Arolygiaeth Prawf EM**

**Dylai Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r GTI sicrhau bod:**

- A1 Trefniadau llywodraethu, ar bob lefel, yn darparu cymorth, craffu a her briodol i waith y GTI a'i ganlyniadau.
- A2 Gwaith y GTI yn cael ei dargedu, yn bodloni angen lleol, ac yn cael ei sbarduno gan strategaeth glir a chynllun cyflawni effeithiol.
- A3 Digon o fynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.
- A4 Digon o gyfnewid gwybodaeth rhwng y GTI a gwasanaeth yr heddlu.

**Dylai Rheolwyr y GTI sicrhau bod:**

- A5 Y gwaith o gynllunio ac adolygu gwaith i reoli'r risg o niwed a berir i eraill o ansawdd digonol.
- A6 Cynllunio ac adolygu gwaith i reoli diogelu a bregusrwydd plant a phobl ifanc o ansawdd digonol.
- A7 Goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr o ansawdd y gwaith i reoli risg o niwed i eraill, a diogelu a bregusrwydd plant a phobl ifanc.
- A8 Y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg yn llawn, ac yn hyrwyddo gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer gwaith.

# Adroddiad manwl



# Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol

## Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog, ond mae bellach ar bwynt allweddol yn y broses o'u hymgorffori os yw am gyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell

12 Cyhoeddwyd ein Hasesiad Corfforaethol o'r Cyngor ym mis Medi 2014, a gwnaethom barhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn ystod 2014-15 a 2015-16. Ym mis Chwefror 2016, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar y Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol a ddaeth i'r casgliad canlynol: 'Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog, ond mae bellach ar bwynt allweddol yn y broses o'u hymgorffori os yw am gyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell'.

13 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol, ac mae wedi rhoi trefniadau gwell ar waith i gefnogi gwelliant ac i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog; ac

b mae'r Cyngor yn awr ar bwynt allweddol yn y broses o sicrhau bod trefniadau gwell wedi'u hymgorffori ac yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn adeiladol ar draws y sefydliad er mwyn cyflawni newid sylweddol o ran sicrhau canlyniadau gwell.

14 Cafwyd un argymhelliad ffurfiol yn ein hadroddiad ar y Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol sef: 'Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella fel y'u nodwyd yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau canlyniadau gwell yn ystod y 12 mis nesaf.' Roedd y 14 o gynigion ar gyfer gwella a gafwyd yn yr adroddiad ar y Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

a Arweinyddiaeth a Rheolaeth

b Llywodraethu

c Adrodd ar Berfformiad

ch Swyddogaethau Galluogi Corfforaethol

15 Mae'r adroddiad llawn ar y Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

16 Ymatebodd y Cyngor i'r adroddiad ar y Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol mewn modd adeiladol ac aeth ati i baratoi datganiad gweithredu er mwyn ymdrin â'r argymhelliad a wnaed a'i gynigion cysylltiedig ar gyfer gwella. Penderfynwyd ar y datganiad gweithredu yng nghyfarfod Cabinet y Cyngor ar 21 Mawrth 2016, ac mae ar gael ar wefan y Cyngor.

17 Yn ystod 2016-17, byddwn yn parhau asesu trefniadau'r Cyngor ar gyfer dangos ei gynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad a'r cynigion ar gyfer gwelliant a gynhwysir yn ein Hadroddiad ynghylch Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol.

# Perfformiad

## Archwiliad o Gynllun Gwella 2016-17 Cyngor Dinas Caerdydd

18 Ar 29 Ebrill 2016, gwnaethom gyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur Llywodraeth Leol a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

## Tystysgrif cydymffurfio ar gyfer yr Archwiliad o asesiad Cyngor Dinas Caerdydd o berfformiad 2014-15

19 Ar 13 Tachwedd 2015, gwnaethom gyhoeddi tystysgrif cydymffurfio ar gyfer yr Archwiliad o asesiad Cyngor Dinas Caerdydd o berfformiad 2014-15. Cadarnhaodd y dystysgrif fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

20 Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol yr argymhelliad canlynol wrth gyhoeddi'r dystysgrif cydymffurfio ar gyfer asesiad o berfformiad 2014-15: 'Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ei adroddiad gwella blynyddol yn cynnwys asesiad cryno o farn y Cyngor am ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn.'

21 Er bod Adroddiad Gwella'r Cyngor ar gyfer 2014-15 a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015 yn nodi ei wyth amcan gwella, nid oedd yn cynnwys asesiad o'i lwyddiant yn eu cyflawni. Yn lle hynny, gwnaeth Adroddiad Gwella'r Cyngor ar gyfer 2014-15 asesu perfformiad yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2014-17.

22 Ymatebodd y Cyngor yn adeiladol i'n hargymhelliad ac ym mis Ionawr 2016 cyhoeddodd Adroddiad Ychwanegol ar Ein Hamcanion Gwella, a oedd yn cynnwys asesiad o farn y Cyngor am ei lwyddiant yn cyflawni amcanion gwella 2014-15. Mae'r adroddiad hwn ar gael ar gael ar wefan y Cyngor.

23 Byddwn yn adolygu asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2015-16 ym mis Tachwedd 2016.

## Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion

24 Cynhaliodd Estyn adolygiad o berfformiad ysgolion o fewn y Cyngor ar gyfer 2015-16 a nododd y canlynol:

a Roedd cyfran y disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghaerdydd yn uwch na chyfartaledd Cymru. Ystyriwyd hyn wrth werthuso perfformiad y Cyngor.

b Roedd perfformiad yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen a dangosydd pynciau craidd cyfnod allweddol 2 wedi gwella'n raddol dros y pedair blynedd diwethaf ac roedd bellach yn gyson â chyfartaledd Cymru fwy neu lai.

c Yng nghyfnod allweddol 3, roedd perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd hefyd wedi parhau'n gyson â chyfartaledd Cymru fwy neu lai.

ch Yng nghyfnod allweddol 4, roedd perfformiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi gwella'n gyflymach na chyfartaledd Cymru ac, yn 2015, ac ar gyfer y mesur hwn, gwnaeth gyflawni'r meincnodau ar gyfer perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru dros y tair blynedd diwethaf, os nad rhagori arnynt. Roedd perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn gwella'n arafach na chyfartaledd Cymru ac nid oedd yr awdurdod wedi cyflawni meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y mesur hwn dros y tair blynedd diwethaf.

d Roedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ac roedd bellach yn gyson â chyfartaledd Cymru fwy neu lai yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion. Fodd bynnag, ar lefel 2, lefel 1 a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio, roedd perfformiad yn waeth na chyfartaledd Cymru.

dd Parhaodd cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ar yr un lefel dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac maent yn gyson â chyfartaledd Cymru. Mae cyfraddau presenoldeb ysgolion cynradd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

## Nododd Estyn fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion a ddeilliodd o'i hymweliad monitro yn 2014, ac nad oedd angen iddo wella'n sylweddol mwyach

25 Following its monitoring visit in February 2014, Estyn made six recommendations to the Council:

a codi safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;

b lleihau nifer y gwaharddiadau a lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ôl-16;

c gwneud yn siŵr bod y trefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion yn herio a chefnogi pob ysgol yn effeithiol, er mwyn gwella safonau ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol;

ch gwella effeithiolrwydd cynllunio ar y cyd ar draws ystod o weithio mewn partneriaeth;

d gwella prosesau rheoli perfformiad i sicrhau dull cyson wrth gyflawni amcanion; a

dd gwella'r craffu ar wasanaethau addysg awdurdodau lleol a gweithio mewn partneriaeth.

26 Yn ystod mis Ionawr 2016, cynhaliodd Estyn ei hymweliad monitro olaf er mwyn asesu cynnydd y Cyngor yn erbyn y chwe argymhelliad a wnaed ym mis Chwefror 2014. Yn dilyn yr ymweliad monitro olaf, daeth Estyn i'r casgliad fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd boddhaol mewn perthynas â'r holl argymhellion. O ganlyniad, nododd Estyn nad oedd angen i'r Cyngor wella'n sylweddol mwyach, a chafodd ei dynnu o weithgarwch dilynol. Mae llythyr canlyniad terfynol Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016 ar gael ar ei gwefan.

## Nododd AGGCC fod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran gwasanaethau cymdeithasol gan fod angen gwella rhai meysydd perfformiad allweddol o hyd, er ei fod yn symud i'r cyfeiriad cywir

27 Cyhoeddodd AGGCC ei Hadolygiad a'i Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014/15 ym mis Hydref 2015 ac mae ar gael ar ei gwefan.

28 Nododd AGGCC fod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol wrth drawsnewid gwasanaethau yn sgil galw cynyddol a phwysau ariannol, ochr yn ochr â pharatoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Roedd aildrefnu'r tîm arweinyddiaeth gorfforaethol wedi gweld newid bwriadol pellach ar lefel uwch reolwyr yn cael ei roi ar waith. Dylai newidiadau i rôl y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol wneud y gwaith o gyflenwi gwasanaethau yn fwy eglur a chydlynol ledled y Cyngor.

29 Cyflwynodd adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr ddarlun clir o'r heriau a'r meysydd i'w gwella o fewn y gyfarwyddiaeth dros y flwyddyn a aeth heibio. Pennwyd nodau clir ar gyfer cyflawni gwelliannau dros y flwyddyn i ddod.

30 Dangosodd dangosyddion perfformiad bod angen gwella rhai meysydd perfformiad allweddol o hyd, er bod y Cyngor yn symud i'r cyfeiriad cywir. O ran gwasanaethau oedolion, roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn lleihau nifer y bobl a oedd yn aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. O ran gwasanaethau plant cafwyd cynnydd yn nifer y plant a oedd yn derbyn gofal gan y Cyngor. Roedd angen gwella perfformiad yn barhaus ym meysydd derbyn ac asesu.

31 Mae edrych yn strategol ar wasanaethau wedi galluogi'r cyngor i ddechrau cynllunio ar gyfer newidiadau o fewn yr adran. Dylai penodiadau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer swyddi cyfarwyddwr cynorthwyol gwasanaethau plant a chyfarwyddwr cynorthwyol gwasanaethau i oedolion alluogi'r gyfarwyddiaeth i:

- a wynebu'r her strategol wrth ymateb i gyflenwi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);
- b hyrwyddo gwasanaethau integredig gydag iechyd a Bro Morgannwg;
- c rheoli modelau newydd o ofal; a
- ch hyrwyddo lles defnyddwyr gwasanaeth dan amgylchiadau ariannol sy'n gynyddol gyfyngol.

32 Roedd cefnogaeth gorfforaethol gref yn dal i fodoli ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cymdeithasol ac ymdrechwyd i ddiogelu cyllideb y gwasanaethau cymdeithasol cyn belled â phosibl. Roedd y Cyngor wedi sicrhau bod aelodau etholedig yn cael y wybodaeth angenrheidiol ac yn deall goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

33 Roedd dealltwriaeth gorfforaethol dda yn parhau o'r heriau sy'n wynebu'r adran a'r anawsterau mae'n eu hwynebu wrth ymdrechu i ddarparu gwasanaethau i'r rhai mwyaf agored i niwed.

## Cynhaliodd AGGCC arolygiad o Wasanaethau Plant y Cyngor a nododd ei fod yn ymroddedig i flaenoriaethu gwasanaethau sy'n cynorthwyo'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, ond bod yn rhaid iddo wneud hyn yn erbyn cefndir o gyllideb ostyngol a galw cynyddol

34 Ym mis Ionawr 2016, cynhaliodd AGGCC Arolygiad o Wasanaethau Plant ac mae'r adroddiad ar gael ar ei gwefan. Edrychodd yr arolygiad ar y trefniadau mynediad ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd a oedd naill ai wedi'u cyfeirio ar gyfer derbyn gofal a chymorth neu pan dderbyniwyd gwybodaeth am les plant. Fel rhan o'r arolygiad, adolygwyd effeithiolrwydd y rhyng-gysylltiad rhwng darpariaeth ataliol a statudol, ond ni chanolbwyntiwyd ar wasanaethau ar gyfer plant anabl. Ystyriodd AGGCC ansawdd y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer plant a'u teuluoedd a oedd yn derbyn gwasanaeth.

35 Cyflwynodd AGGCC ei hadroddiad ar yr arolygiad ym mis Mawrth 2016, a daeth i'r casgliad bod cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwasanaethau plant a lefel uchel o hyder mewn trefniadau arweinyddiaeth. Roedd morâl y staff yn gadarnhaol ar y cyfan ac roedd y staff yn parchu'r uwch dîm rheoli.

36 Roedd cefnogaeth gorfforaethol gref i wasanaethau plant a oedd yn amlwg iawn yn y Cyngor drwyddo draw. Dangosodd yr aelodau etholedig a'r tîm rheoli corfforaethol ddealltwriaeth gyffredin o'r cyfeiriad a'r egni sydd eu hangen i sicrhau bod y gwasanaeth yn cefnogi canlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc.

37 Dangosodd swyddogion corfforaethol ac uwch swyddogion dystiolaeth o baratoi strategol da ar gyfer y gwaith sydd ar ddod o roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Roedd yr uwch reolwyr yn gallu mynegi sut y byddai'r gwasanaethau wedi'u hailfodelu a'r strategaeth cymorth yn gynnar yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer pobl ifanc.

38 Roedd yr amseroldeb ar gyfer rheoli cysylltiadau ac atgyfeiriadau wedi gwella yn ystod dau chwarter cyntaf 2015/16, ond roedd yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu. Roedd y gwaith o gofnodi hanes blaenorol cysylltiadau lluosog yn anghyson ac nid oedd yn cefnogi asesiad risg effeithiol.

39 Roedd ansawdd yr asesiadau cychwynnol a welwyd yn dda, gyda phenderfyniadau priodol, ac roedd y cofnodion yn glir a chyfredol. Roedd ystod dda o wybodaeth wedi'i defnyddio er mwyn llunio dadansoddiad o anghenion, ond nid oedd bob amser yn amlwg a oedd y plentyn wedi cael ei weld.

40 Roedd plant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o niwed, neu a oedd yn debygol o fod mewn perygl o niwed, yn cael eu canfod, a gwnaed gwaith priodol er mwyn helpu i'w cadw'n ddiogel. Roedd y trefniadau ar gyfer ymholiadau ynglŷn ag amddiffyn plant ac ymchwiliadau, yn cynnwys y rhai y tu allan i oriau gwaith, yn amserol ac yn effeithiol.

41 Roedd y trefniadau ar gyfer mynediad i wasanaethau plant wedi'u trefnu'n dda ac yn effeithiol ar y cyfan. Yr amseroldeb o ran gwneud penderfyniadau ynghylch atgyfeiriadau o fewn un diwrnod gwaith oedd 83 y cant ar gyfer 2014-15, ac roedd y 28,354 o gysylltiadau a sgriniwyd yn ystod y flwyddyn wedi arwain at 4,195 o atgyfeiriadau. Roedd y trothwy ar gyfer gwasanaethau statudol yn gymharol uchel, ond roedd ymateb priodol ac amserol i bryderon ynghylch plant neu bobl ifanc a allai fod mewn perygl. Roedd yn ymddangos mai dim ond os bydd digon o wasanaethau ataliol ar gael i gefnogi teuluoedd yn effeithiol ac ynghynt y bydd y nifer uchel o gysylltiadau dro ar ôl tro yn lleihau.

# Y defnydd o adnoddau

## Archwiliad o gyfrifon y Cyngor

42 Ar 23 Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor, y Grŵp a'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn.

## Roedd y Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynllunio ariannol ac mae ganddo drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol cadarn ar waith, ond mae angen iddo bellach ddatblygu cynlluniau cadarn er mwyn helpu i gyflawni ei gynigion arbed yn amserol

43 Rhwng mis Mai a mis Hydref 2015, gwnaethom adolygu cydnerthedd ariannol y Cyngor, yn dilyn materion a godwyd yn y gwaith ar y sefyllfa ariannol yn 2014-15. Canolbwyntiodd y gwaith ar y graddau y cyflawnwyd cynlluniau arbedion 2014-15 a chyfnod cynllunio ariannol 2015-16.

44 Ym mis Mawrth 2016, gwnaethom nodi bod y Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynllunio ariannol a bod ganddo drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol cadarn ar waith, ond bod angen iddo bellach ddatblygu cynlluniau cadarn er mwyn helpu i gyflawni ei gynigion arbed yn amserol.

45 Wrth ddod i'n casgliad, gwnaethom nodi'r canfyddiadau canlynol:

- a roedd y Cyngor wedi gwella ei drefniadau cynllunio ariannol, ac mae ganddo hanes o weithredu o fewn ei gyllideb gyffredinol, ond nid yw wedi llwyddo i gyflawni ei holl arbedion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn eto;
- b roedd gan y Cyngor drefniadau rheolaeth ariannol cadarn ar waith; ac
- c roedd gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ariannol cadarn ar waith.

46 Daeth ein hadroddiad ar Asesu Cydnerthedd Ariannol i law Pwyllgor Archwilio'r Cyngor ym mis Mehefin 2016 ac mae'r adroddiad llawn ar wefan y Cyngor.

# Llywodraethu

47 Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyflawni ein gwaith llywodraethu fel rhan o'r Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol, a nodir uchod ar wahân. Mae'r adroddiad llawn ar y Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol ar gael ar ein gwefan.

## Roedd gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Caerdydd Arolygiaeth Prawf EM staff profiadol, ond roedd lle i wella ei waith gyda phlant a phobl ifanc ac roedd angen atgyfnerthu'r broses oruchwylio

48 Ym mis Mai 2016, cyflwynodd Arolygiaeth Prawf EM ei Gydarolygiad Llawn o Waith gyda Throseddwyr Ifanc o fewn y Cyngor, ac mae'r adroddiad ar gael ar ei wefan. Y prif reswm dros arolygu'r Cyngor oedd oherwydd bod ganddo'r perfformiad ailgollfarnu tri mis a 12 mis isaf yng Nghymru dros gyfnod parhaus. Yn ôl y data aildroseddu, bu lleihad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 41.8 y cant ond roedd yn dal i fod yn uwch na'r ffigur cyfartalog diweddaraf ar gyfer Cymru a Lloegr sef 37.9 y cant. Roedd cyfraddau amlder aildroseddu a'r defnydd o'r ddalfa hefyd yn gostwng ond roeddent yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr.

49 Roedd y cydarolygiad o waith gyda throseddwyr ifanc yng Nghaerdydd yn un o nifer fach o gydarolygiadau llawn a gynhaliwyd gydag Arolygiaeth Prawf EM gyda'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd. Canolbwyntiodd yr arolygwyr ar chwe maes allweddol: lleihau aildroseddu, amddiffyn y cyhoedd, amddiffyn plant a phobl ifanc, sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni, effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a gwaith llys ac adroddiadau.

50 Roedd yr arolygwyr yn falch o nodi'r canlynol:

a. Roedd y gwaith i leihau aildroseddu yn foddhaol. Gwnaeth yr arolygwyr ganfod gwaith o ansawdd arbennig o dda mewn dedfrydau o garchar, ac wrth reoli'r broses o drosglwyddo achosion i wasanaethau prawf oedolion. Gwelsom fawr ddim tystiolaeth o waith gyda dioddefwyr neu waith cyfiawnder adferol.

b. Roedd gwaith cyffredinol i amddiffyn y cyhoedd a dioddefwyr gwirioneddol neu bosibl yn foddhaol. Rhoddodd adroddiadau i'r llys esboniadau clir o'r risg y mae plant a phobl ifanc yn ei beri i bobl eraill. Roedd gan reolwyr achos ddealltwriaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau i reoli risg o niwed, ond roedd goruchwyliaeth y rheolwyr yn annigonol.

c. Roedd gwaith cyffredinol i amddiffyn plant a phobl ifanc a'u gwneud yn llai agored i niwed yn foddhaol. Roedd asesiadau dechreuol o ddiogelu a bregusrwydd yn dda, ond roedd ansawdd y cynllunio i ymdrin â pherygl mawr yn annigonol. Gwelwyd cyswllt da a chydweithio gyda'r Gwasanaethau Plant ond roedd mynediad cyfyngedig at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.

ch Roedd gwaith i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni yn foddhaol. Roedd gan y staff wybodaeth dda am y plant a'r bobl ifanc roeddent yn gweithio â hwy, a diddordeb ynddynt. Mewn rhai achosion, roedd gofynion cyfyngol mewn gorchmynion ymddygiad troseddol yn peryglu troseddoli'r plentyn ymhellach.

d Roedd rheoli a darparu ymyriadau i leihau aildroseddu yn foddhaol. Roedd staff yn cynllunio a darparu gwasanaethau i safon uchel Roedd canolfan bresenoldeb iau wedi'i hen sefydlu a'i hintegreiddio'n llawn o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Nid oedd unrhyw strategaeth neu bolisi cyffredinol i bennu ystod a chynnwys y ddarpariaeth.

51 Fodd bynnag, roedd arolygwyr yn pryderu bod effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a phartneriaeth yn anfoddhaol. Roedd diffyg arweinyddiaeth effeithiol flaenorol wedi gwanhau Bwrdd Rheoli'r GTI. Ychydig iawn o ddefnydd a oedd o ddata perfformiad a gwybodaeth leol i dargedu darparu gwasanaeth a gwella canlyniadau.

52 Gwnaeth yr arolygwyr argymhellion i helpu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys sicrhau bod trefniadau llywodraethu, ar bob lefel, yn darparu cymorth, craffu a her briodol i waith y GTI a'i ganlyniadau.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2016-17 Cyngor Dinas Caerdydd

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Dinas Caerdydd, ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar 7 Ebrill 2016, yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o’r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Copi i: Non Jenkins, Rheolwr
Chris Pugh, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwilio asesiad o berfformiad 2014-15 Cyngor Dinas Caerdydd

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Dinas Caerdydd (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2014-15, ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar 20 Hydref 2015, yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, nid wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur nac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

## Argymhellion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Rhaid i'r Cyngor baratoi datganiad gweithredu ac amserlen weithredu mewn ymateb i'r argymhelliad statudol hwn o fewn 30 diwrnod gwaith i gael y dystysgrif hon.

| | |
|---|---|
| A1 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ei adroddiad gwella blynyddol yn cynnwys asesiad cryno o farn y Cyngor am ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn. |

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Copi i:Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Non Jenkins, Rheolwr
Chris Pugh, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol 2014-15

Y Cynghorydd Phil Bale
Arweinydd Cyngor Caerdydd
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UQ

Annwyl Gynghorydd Bale

**Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Sir Caerdydd 2014-15**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 29 Medi 2015, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 16 a 24 Medi 2015 yn y drefn honno, a chyflwynwyd adroddiad manylach i swyddogion hefyd.

Yn gyffredinol, roedd y datganiad cyfrifon a'r papurau gwaith cysylltiedig a gyflwynwyd i'w harchwilio o safon dda, er i'r broses archwilio gymryd mwy o amser na mewn blynyddoedd blaenorol, gyda nifer y staff profiadol a oedd yn gadael y Cyngor a swyddogion yn gorfod cyflawni rolau newydd ar adeg dyngedfennol yn y broses archwilio yn ffactor cyfrannol. Byddwn yn gweithio gyda swyddogion i wella'r broses gau o'n safbwynt ni a'r Cyngor yn 2015-16. Roedd un o'r materion mwy arwyddocaol a nodwyd yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol yn ymwneud â chyfalafu rhywfaint o wariant refeniw ar Anheddau'r Cyngor yn anghywir. Er nad oedd y symiau dan sylw yn berthnasol i'm marn archwilio mae hwn yn fater pwysig y mae angen mynd i'r afael ag ef wrth fynd ymlaen.

**Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ond bod meysydd i'w gwella wedi'u nodi**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ar y cyfan, rwy'n fodlon nad oes unrhyw faterion a fyddai'n effeithio ar y farn archwilio ddiamod a roddwyd ar ddatganiadau cyfrifon 2014-15. Fodd bynnag, codwyd nifer o faterion yn Adroddiad Gwella Blynyddol ac Asesiad Corfforaethol y llynedd. Prif gasgliad yr adroddiad oedd bod 'trefniadau arwain a rheoli tameidiog wedi golygu nad yw perfformiad gwan mewn meysydd gwasanaeth allweddol wedi gwella'. O ystyried canfyddiadau'r adroddiad a'r gwaith y mae'r Cyngor eisoes wedi'i ddechrau i fynd i'r afael â'r materion hyn, cytunwyd y cynhelir adolygiad dilynol yn 2014-15 gyda chynnydd yn cael ei fonitro drwy gydol y cyfnod hwn. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn, yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pellach. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd er mwyn iddo wella ei berfformiad.

Mae'r sefyllfa ariannol heriol iawn sy'n wynebu pob corff llywodraeth leol yng Nghymru yn parhau, gyda'r Cyngor yn rhagweld diffyg o £117 miliwn rhwng 2016-17 a 2018-19. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo ystyried gwneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn darparu ei wasanaethau ac y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cau'r bwlch ariannol. Cydnabyddir bod rheolaeth ariannol effeithiol yn cael proffil uchel o fewn y Cyngor ar lefel swyddogion ac aelodau ond nawr rhaid canolbwyntio ar gyflwyno cynigion ar gyfer gwella cytûn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn ariannol gydnerth yn y dyfodol.

**Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2015.**

**Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol**

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn 2016 unwaith y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Roedd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2015.

Yn gywir

**Ann-Marie Harkin**
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

23 Tachwedd 2015

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Y cydnerthedd ariannol mewn cynghorau | A1 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:<br>• wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;<br>• yn cynnal blaenolwg tair i bum mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; a<br>• dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd – y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael.<br>A2 Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun.<br>A3 Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig.<br>A4 Dylai cynghorau adolygu digonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr.<br>A5 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol.<br>A7 Dylai cynghorau:<br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; ac<br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Y cydnerthedd ariannol mewn cynghorau | A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol.<br>A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. |
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A1 Egluro natur a gweithrediad y consortia. Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a'u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia i'w darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynir (mae gwasanaethau a ddarperir dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid yn wasanaethau a gomisiynir).<br>A2 Canolbwyntio ar ddeilliannau trwy gynllunio tymor canolig.<br>Nodwyd gennym fod pwyslais ar gamau byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn amharu ar ddatblygiad effeithiol y consortia rhanbarthol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Rydym yn argymell felly:<br>• Gan na fydd unrhyw weithgareddau posibl i ad-drefnu awdurdodau lleol yn cael eu gweithredu'n llawn tan 2020, y dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu, ehangu cwmpas a chyllido consortia rhanbarthol, yn gysylltiedig ag amcanion strategol priodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A3 Datblygu mwy o gydberthnasau cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion. Roedd llawer o bartneriaid gwella ysgolion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond canfuwyd nad oedd hyn wedi arwain at feithrin perthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Rydym yn argymell felly:<br>• y dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arferion a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o ymdrin â phroblem neu fod â chyfrifoldeb swyddogaethol ar gyfer datblygu polisi).<br>• y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod bod yr holl bartneriaid yn ddibynnol ar ei gilydd er mwyn cyflawni eu swyddogaethau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o:<br>– rannu gwybodaeth ac ymgynghori ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i wella ysgolion;<br>– datblygu perthnasau cydweithredol sy'n rhannu atebolrwydd; a<br>– chynnal adolygiadau o'r system gyfan ac alinio dealltwriaeth a safbwynt y consortia rhanbarthol ar draws pob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.<br>A4 Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r unigolion mwyaf dawnus. Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi cael anawsterau wrth recriwtio uwch arweinwyr addysg a chanfuwyd mai ychydig iawn o gamau a oedd wedi eu cymryd i ymdrin â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Rydym yn argymell felly:<br>• y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio i wneud swyddi addysg arweiniol yn fwy deniadol er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf dawnus ar gyfer y system gwella addysg; ac<br>• y dylai awdurdodau lleol gydweithio i gefnogi datblygiad proffesiynol yr uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer uwch arweinwyr. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A5 Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol. Er bod datblygiadau parhaus yn cael eu gwneud, canfuwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli cyllid cwbl effeithiol hyd yn hyn (paragraffau 3.2 i 3.36). Rydym yn argymell felly y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol:<br>• wella eu defnydd o hunanwerthuso ar gyfer eu perfformiad a'u trefniadau llywodraethu a'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gynllunio busnes ac i gefnogi adolygiadau blynyddol o ddulliau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;<br>• gwella eu dulliau rheoli perfformiad gan gynnwys cynllunio busnes yn well, defnyddio mesurau perfformiad eglur a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;<br>• sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau llywodraethu a chyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;<br>• datblygu eu trefniadau rheoli ariannol i sicrhau bod prosesau cyllidebu, monitro ac adrodd ariannol yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys cyllid grant a wariwyd trwy awdurdodau lleol;<br>• datblygu trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer y consortia yn gyffredinol yn ogystal â chraffu ar berfformiad gan awdurdodau unigol, a allai gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;<br>• sicrhau bod y trefniadau a'r penderfyniadau y mae consortia yn eu gwneud yn agored ac yn dryloyw;<br>• cydnabod ac ymdrin ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod y llinellau atebolrwydd yn eglur a bod yr holl staff yn ymwybodol o'r swyddogaethau a gyflawnir; a<br>• datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid.<br>A2 Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y Cyngor.<br>A3 Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant; ;<br>• creating an integrated corporate compliance system to record and monitor compliance levels on DBS checks; and<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.<br>A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth a'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y Cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A5 Wrth adolygu canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn mae'n disgwyl o awdurdodau lleol ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig mewn gwasanaethau addysg, a'r unigolyn a enwwyd ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hybu diogelu.<br>A6 Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y Cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor.<br>A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r Cyngor.<br>A8 Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y Cyngor. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A1 Gwella llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yng nghyswllt materion pobl hŷn drwy:<br>• benodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau i bobl hŷn;<br>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaethau pobl hŷn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; a<br>• diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, a rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a rhanddeiliaid.<br><br>A2 Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch gwasanaethaui bobl hŷn yn well drwy:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n trafod gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol; ac<br>• ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid wrth ddatblygu cynlluniau, ac wrth ddatblygu a chytuno ar flaenoriaethau.<br><br>A3 Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno, drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol ac yn bodloni anghenion y sawl sy'n eu derbyn.<br><br>A4 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol drwy:<br>• bennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu yn holl wasanaethau'r Cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol, ac yn enwedig y rhai y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; a<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith toriadau cyllideb a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A5 Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb drwy:<br>• nodi sut y bydd newid gwasanaethau neu dorri cyllidebau'n effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gyflawnir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi'r niferoedd posibl y byddai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt, drwy nodi'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchodedig; a<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol, megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddeall yn glir sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithiol arnynt.<br><br>A6 Gwella'r rheolaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno drwy:<br>• bennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel bo modd barnu ynghylch effaith y prosiectau hynny dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel bo modd cynnal gwerthusiadau cymaradwy o brosiectau a ariennir yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa brosiect sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol a faint o gynlluniau sydd wedi cael eu prif ffrydio i dderbyn cyllid craidd; a<br>• gwella'r ymgysylltu a'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bartneriaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A1 Gwella gwaith cynllunio strategol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• bennu gweledigaeth gytunedig y Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor oddi mewn i ddarpariaeth chwaraeon a hamdden gymunedol ehangach yr ardal; ac<br>• ystyried y posibilrwydd o gyflenwi gwasanaethau'n rhanbarthol.<br><br>A2 Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn canfod y model cyflenwi mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytunedig y Cyngor a'i flaenoriaethu ar gyfer gwasanaethau hamdden. Dylai'r arfarniad ystyried:<br>• faint o gyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael dros y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i gynyddu'r incwm a gynhyrchir a lleihau 'cymhorthdal' cynghorau;<br>• dadansoddiad cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i gyflenwi gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn cael eu nodi'n glir;<br>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A3 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad gwasanaethau hamdden drwy sefydlu cyfres o fesurau er mwyn galluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith. Dylai hyn drafod perfformiad yr holl Gyngor a pherfformiad cyfleusterau penodol a chynnwys:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• ansawdd y cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;<br>• bodlonrwydd cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';<br>• data defnydd – y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau/cyfleusterau, amserau defnydd ac ati; ac<br>• effaith cyfleusterau hamdden wrth ymdrin â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd.<br><br>A4 Gwella'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• adrodd yn rheolaidd ar berfformiad wrth bwyllgor(au) craffu;<br>• darparu gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso proses benderfynu gadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; a<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i ganfod cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru